**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DYDD MAWRTH, 24 MAI 2022**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Cyfarfod Hybrid Dydd Mawrth, 24 Mai 2022

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Mared Eastwood (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins-Cogan, Geoff Collett, Steve Copple, Bill Crease, Paul Cunningham, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, David Evans, Chrissy Gee, David Healey, Gladys Healey, Ian Hodge, Andy Hughes, Dave Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Dave Mackie, Gina Maddison, Roz Mansell, Alan Marshall, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Linda Thomas, Ant Turton, Roy Wakelam, Arnold Woolley ac Antony Wren

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Jean Davies

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth); Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd; Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 1. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Marion Bateman, Paul Cunningham, Ian Roberts, ac Andrew Parkhurst gysylltiad personol yn eitem 12 ar y rhaglen: Penodi Lleygwr i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan eu bod yn adnabod yr unigolyn a enwebwyd.

## 2. ADOLYGIAD Y CADEIRYDD O'R FLWYDDYN 2021-22

Cyflwynodd y Cynghorydd Joe Johnson – fel y Cadeirydd a oedd yn gadael – ei adolygiad o'r flwyddyn 2021/22. Yr oedd ef a'i Gymar, Mrs Sue Johnson, wedi bod yn falch o gael cynrychioli Sir y Fflint yn ystod y flwyddyn.

Croesawodd y Cynghorydd Johnson yr Aelodau Etholedig newydd i'w cyfarfod cyntaf gyda'r Cyngor Sir, a diolchodd i'r Aelodau a'r swyddogion a oedd yn dychwelyd am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd. Siaradodd am effaith uniongyrchol pandemig Covid-19 ar fywydau personol a thalodd deyrnged i swyddogion a gweithwyr am eu hymrwymiad i barhad gwasanaethau drwy gydol yr heriau. Dywedodd y Cynghorydd Johnson ei fod wedi bod yn falch o gael derbyn gwahoddiadau i ystod o ddigwyddiadau ar ran y Cyngor Sir, a rhoddodd nifer o enghreifftiau.

3. **ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER 2022/23, A'R CADEIRYDD I DDERBYN CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI'R DATGANIAD DERBYN SWYDD**

Cynigiodd y Cynghorydd Hilary McGuill y dylid ethol y Cynghorydd Mared Eastwood yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ian Roberts. Gan siarad o blaid y cynnig, tynnodd y Cynghorydd McGuill sylw at rinweddau personol y Cynghorydd Eastwood, ei phrofiadau proffesiynol, a'i gwaith ymroddgar yn y gymuned leol. Talodd y Cynghorydd Ian Roberts deyrnged i'r Cynghorydd Mared Eastwood yn ogystal. Ni chafwyd enwebiadau eraill.

Wedi pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Mared Eastwood yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23.

Diolchodd y Cynghorydd Mared Eastwood i'r Aelodau am ei hethol yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan ddisgrifio hynny fel anrhydedd. Talodd deyrnged i'r Cadeirydd a oedd yn gadael a'i Gymar, gan ddweud bod y Cynghorydd Joe Johnson wedi bod yn llysgennad ardderchog i'r Sir.

**PENDERFYNWYD:**

Ethol y Cynghorydd Mared Eastwood yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23.

Arwisgwyd y Cynghorydd Mared Eastwood gyda Chadwyn y Swydd gan y Cadeirydd a oedd yn gadael, ac arwyddodd y Cadeirydd newydd ei Datganiad Derbyn Swydd yng ngŵydd y Prif Weithredwr.

Cyflwynodd y Cadeirydd Fathodyn Swydd Cyn-Gadeirydd i'r Cynghorydd Joe Johnson, a chyflwynwyd rhodd i'w Gymar, Mrs Sue Johnson.

Nid oedd Cymar y Cadeirydd, Mr Tim Eastwood, yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, a derbyniwyd Bathodyn y Swydd ar ei ran gan Mr Owen Eastwood.

(Wedi'r pwynt hwn cadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan y Cynghorydd Mared Eastwood.)

4. **PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER 2022/23, A'R IS-GADEIRYDD I DDERBYN CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI'R DATGANIAD DERBYN SWYDD**

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge y dylid ethol y Cynghorydd David Mackie yn Is-Gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Helen Brown.

Cynigiodd y Cynghorydd David Healey y dylid ethol y Cynghorydd Gladys Healey yn Is-Gadeirydd, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Christine Jones.

Ni chafwyd enwebiadau eraill.

Gofynnwyd am bleidlais wedi ei chofnodi, a chefnogwyd hyn gan y nifer gofynnol o Aelodau.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol dros y Cynghorydd David Mackie:
Mike Allport, Bernie Attridge, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Helen Brown, Steve Copple, Bill Crease, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, Chrissy Gee, Ian Hodge, Andy Hughes, Dennis Hutchinson, Richard Jones, Dave Mackie, Roz Mansell, Alan Marshall, Debbie Owen, Mike Peers, David Richardson, Dale Selvester, Jason Shallcross, Arnold Woolley ac Antony Wren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol dros y Cynghorydd Gladys Healey:
Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins Cogan, Geoff Collett, Paul Cunningham, Ron Davies, Mared Eastwood, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Dave Hughes, Ray Hughes, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Gina Maddison, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Sam Swash, Linda Thew, Linda Thomas, Ant Turton, Roy Wakelam

Ni chafwyd unrhyw un yn ymatal.

Wedi pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Gladys Healey yn Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23.

Diolchodd y Cynghorydd Gladys Healey i’r Aelodau am eu cefnogaeth a dywedodd ei bod yn falch ac yn teimlo’n freintiedig o gael ei hethol yn Is-Gadeirydd. Llongyfarchodd y Cadeirydd ar ei phenodiad a dweud ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda hi yn y flwyddyn i ddod.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi’r Cynghorydd Gladys Healey yn Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23.

Arwisgwyd y Cynghorydd Healey gyda Chadwyn y Swydd gan y Cadeirydd, ac arwyddodd yr Is-Gadeirydd newydd ei Datganiad Derbyn Swydd yng ngŵydd y Prif Weithredwr. Arwisgwyd Cymar y Cynghorydd Healey, y Cynghorydd David Healey, gyda Chadwyn ei Swydd.

## 5. ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham y dylid penodi’r Cynghorydd Ian Roberts yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Christine Jones.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge y dylid penodi’r Cynghorydd Richard Jones yn Arweinydd y Cyngor, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Helen Brown.

Ni chafwyd enwebiadau eraill.

Gofynnwyd am bleidlais wedi ei chofnodi, a chefnogwyd hyn gan y nifer gofynnol o Aelodau.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol dros y Cynghorydd Ian Roberts:
Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, Geoff Collett, Paul Cunningham, Ron Davies, Mared Eastwood, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Dave Hughes, Ray Hughes, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Gina Maddison, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Sam Swash, Linda Thomas, ac Arnold Woolley

Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol dros y Cynghorydd Richard Jones:
Mike Allport, Bernie Attridge, Glyn Banks, Pam Banks, Helen Brown, Steve Copple, Bill Crease, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, Chrissy Gee, Ian Hodge, Andy Hughes, Dennis Hutchinson, Richard Jones, Dave Mackie, Roz Mansell, Debbie Owen, Mike Peers, David Richardson, Dale Selvester, Jason Shallcross, Ant Turton, ac Antony Wren

Ymatalodd yr Aelodau canlynol:
Marion Bateman, David Coggins-Cogan, Allan Marshall, Linda Thew a Roy Wakelam

Wedi pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Ian Roberts yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Ian Roberts yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23.

## 6. ARWEINYDD Y CYNGOR I BENODI'R CABINET

Diolchodd y Cynghorydd Ian Roberts i'r Aelodau am eu cefnogaeth wrth ei ethol am dymor arall yn swydd Arweinydd y Cyngor, a oedd yn anrhydedd iddo. Siaradodd am y parch mawr a oedd i'r Cyngor yng Nghymru, a thalodd deyrnged i holl weithwyr y Cyngor a oedd wedi parhau i ddarparu a chynnal safonau gwasanaeth drwy gydol yr anawsterau a achosodd pandemig Covid. Llongyfarchodd y Cynghorydd Roberts y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar eu penodiad.

Yn unol â'r Cyfansoddiad, nododd y Cynghorydd Roberts ei ddewis o Gynghorwyr a fyddai'n gwasanaethu ar y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r dewis o Gynghorwyr a fyddai'n gwasanaethu ar y Cabinet a'u portffolio a restrir isod.

| Aelod Cabinet | Portffolio |
|---|---|
| Ian Roberts | Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden |
| Christine Jones | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Dave Hughes | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol |
| Chris Bithell | Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd |
| Billy Mullin | Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol |
| Paul Johnson | Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Gwydn, gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael |
| Sean Bibby | Aelod Cabinet Tai ac Adfywio |
| David Healey | Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi |

## 7. MATERION CYFANSODDIADOL GAN GYNNWYS PWYLLGORAU

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog (Llywodraethu) a ddeliodd â'r materion hynny sydd angen penderfynu arnynt yn ystod Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir, yn unol â Rheol 1.1 (vii)-(xiv) Gweithdrefn y Cyngor. Yr oedd yr adroddiad hefyd yn ymdrin â phenodi Pwyllgorau a Chadeiryddion eraill, a materion eraill megis dyrannu seddi gyda chydbwysedd gwleidyddol.

Rhannwyd yr adroddiad yn adrannau, gyda phob un yn ymdrin ag un penderfyniad a oedd angen ei wneud, a'r materion perthnasol ar gyfer eu hystyried. Ystyriwyd pob adran yn ei thro, a phleidleisio arni.

### (i) Penodi Pwyllgorau

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyfansoddiad yn caniatáu penodi'r canlynol: Pwyllgor Apeliadau; Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd; Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd; Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; Pwyllgor Cwynion; Pwyllgor Apeliadau Cwynion; Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu; Cydbwyllgor Llywodraethu (ar gyfer Pensiynau); Pwyllgor Trwyddedu; Pwyllgor Cynllunio; Pwyllgor Safonau; a phum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (fel y rhestrwyd ym mharagraff 1.01 yr adroddiad).

Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts fod y Pwyllgor Trwyddedu'n cael ei drosglwyddo i Grŵp Annibynnol.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts ddiwygiad i'r argymhelliad yn yr adroddiad, a chynnig y dylid creu Pwyllgor Newid Hinsawdd newydd i hybu gweledigaeth y Cyngor o chwilio am atebion i effaith newid hinsawdd ar gymunedau lleol yn Sir y Fflint. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Chris Bithell ac fe'i cymeradwywyd wedi cynnal pleidlais ar y mater.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cyngor yn penodi'r Pwyllgorau canlynol:

Pwyllgor Apeliadau
Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd
Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd
Pwyllgor Newid Hinsawdd
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pwyllgor Cwynion
Pwyllgor Apeliadau Cwynion
Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu
Cydbwyllgor Llywodraethu (ar gyfer Pensiynau)
Pwyllgor Trwyddedu
Pwyllgor Cynllunio
Pwyllgor Safonau; a'r
Pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y rhestrwyd yn yr adroddiad.

**(ii) Pennu maint Pwyllgorau**

Eglurodd y Prif Swyddog fod rhaid penderfynu ar faint pob Pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol. Yr oedd y Cyngor wedi cytuno o'r blaen y dylai'r prif Bwyllgorau fod yn ddigon mawr er mwyn gallu cynrychioli'r holl grwpiau gwleidyddol.

Eglurodd y Prif Swyddog fod maint y Pwyllgor Cwynion, Pwyllgor Apeliadau Cwynion, a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, fel y nodwyd yn 1.04 yn yr adroddiad, wedi ei gynyddu ar ôl hynny i 13 er mwyn cynrychioli'r holl grwpiau gwleidyddol.

Wrth ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Bernie Attridge am y cydbwysedd gwleidyddol arfaethedig, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, a'r angen i benderfynu ar gydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y Pwyllgor Newid Hinsawdd newydd, awgrymodd y Prif Swyddog fod cylch gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cael eu pennu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Sir ar 19 Gorffennaf, a bod cydbwysedd gwleidyddol Pwyllgorau'n cael eu hadolygu a'u hailgyfrifo hefyd.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Richard Jones. Pan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod maint pob Pwyllgor fel ag y nodir ym mharagraff 1.04 yr adroddiad, a maint y Pwyllgor Cwynion, Pwyllgor Apeliadau Cwynion, a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn cael ei gynyddu i 13; a

(b) Bod cydbwysedd gwleidyddol a chylch gorchwyl y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cael ei sefydlu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Sir ar 19 Gorffennaf 2022.

**(iii) <u>Cylch Gorchwyl Pwyllgorau</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog ei bod yn ofynnol i'r Cyfarfod Blynyddol benderfynu ar gylch gorchwyl y Pwyllgorau a benodwyd ganddo. Fe'u nodir yn y Cyfansoddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Hilary McGuill. Pan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y cylch gorchwyl ar gyfer pob Pwyllgor fel y'u nodir yn y Cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo.

**(iv) <u>Cydbwysedd Gwleidyddol</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod rhaid i'r Cyngor benderfynu yn y Cyfarfod Blynyddol, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny, ar ddyraniad seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r Rheolau Cydbwysedd Gwleidyddol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 fel y'u diwygiwyd. Nid yw'r rheolau hynny'n berthnasol i'r Cabinet nag i'r Pwyllgor Safonau. Byddai rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd newydd.

Awgrymodd y Prif Swyddog fod Cynghorwyr yn ystyried y cydbwysedd gwleidyddol a gynigiwyd ar gyfer ystyriaeth fel mesur dros dro hyd nes bod ymgynghoriad wedi ei gynnal gydag Arweinwyr Grwpiau ynglŷn â dyraniad seddi ar Bwyllgorau, gan fod dyraniadau eraill yn gallu bod yn bosibl. Byddai cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei ailystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Sir ar 19 Gorffennaf 2022.

Er mwyn cael cydbwysedd gwleidyddol, bu'n angenrheidiol gwahanu'r Pwyllgorau 'cyflogaeth', sef y Pwyllgor Cwynion, Pwyllgor Apeliadau Cwynion a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu. Fel arall, byddai'r grwpiau llai dan anfantais drwy orfod defnyddio rhan o'u dyraniad seddi ar gyfer pwyllgorau nad oedd yn gorfod cyfarfod yn aml. Yr oedd y gwahanu hwn yn gofyn am gytundeb penodol gan holl Aelodau'r Cyngor.

Eglurodd y Prif Swyddog ei fod wedi bod yn arferiad o'r blaen i benodi cynrychiolydd o'r Cyngor Sir i'r Awdurdod Tân yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol, ac yr oedd hyn wedi ei gynnwys yn y cyfrifiad.

Yr oedd 117 o seddi ar gyfer Cynghorwyr drwy holl Bwyllgorau'r Cyngor yn seiliedig ar y grŵp presennol o aelodau. Nodwyd hawl pob grŵp i seddi yn y tabl yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at baragraff 1.12 yr adroddiad, a mynegodd bryderon am reolau 3 a 4 yn ymwneud ag enwebu ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio. Cynigiodd y Cynghorydd Peers y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i reolau 3 a 4, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, er mwyn gwella gweithdrefnau cyfredol.

Cytunodd y Prif Swyddog i drafod y cynnig gydag Arweinwyr Grwpiau yn ystod y 12 mis nesaf.

Awgrymodd y Cynghorydd Richard Jones fod cyrff allanol eraill y dylid eu cynnwys yng nghyfrifiadau cydbwysedd gwleidyddol, a chyfeiriodd at CLILC a Heddlu Gogledd Cymru fel enghreifftiau.  Eglurodd y Prif Swyddog fod gwahanol reolau'n berthnasol o ran sut y cyfrifid cydbwysedd gwleidyddol ar gyrff allanol eraill, a oedd yn seiliedig ar eu cyfansoddiad gwleidyddol hwy, nid un y Cyngor.

Dygodd y Cynghorydd Bernie Attridge gynnig gweithdrefnol gerbron i ohirio'r cyfarfod er mwyn galluogi i'r cydbwysedd gwleidyddol gael ei ailgyfrifo i gynnwys dyraniad i CLILC.  Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Richard Jones. Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts nad oedd CLILC wedi ei chynnwys o'r blaen yng nghyfrifiad y cydbwysedd gwleidyddol a chynigiodd na fyddai CLILC yn cael ei chynnwys yn y cydbwysedd dros dro a oedd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Tynnodd y Cynghorydd Attridge ei gynnig i ohirio'r cyfarfod yn ôl.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ted Palmer.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Dyrannu'r seddi yn unol â chydbwysedd gwleidyddol, fel y'i nodir yn Atodiad 1, a rheolau aelodaeth Pwyllgorau, fel y'u nodir ym mharagraffau 1.09-1.14;

(b) Dyrannu'r seddi ar y Pwyllgor Cwynion, Pwyllgor Apeliadau Cwynion a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu i roi amrediad gwleidyddol eang i'r aelodaeth; a

(c) Rhoi mwy o ystyriaeth i reolau 3 a 4, fel y'u nodir ym mharagraff 1.12 yr adroddiad, er mwyn gwella gweithdrefnau presennol yn ymwneud ag enwebu ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio.

**(v) Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Sefydlog**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Cadeiryddion Pwyllgorau yn cael eu penodi gan wahanol gyrff, rhai ohonynt a oedd yn destun cyfyngiadau. Yr oedd tabl ym mharagraff 1.17 yr adroddiad yn amlinellu pa gorff oedd yn penodi pa Gadeirydd a pha gyfyngiadau (os o gwbl) oedd yn berthnasol.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge yr enwebiadau canlynol, ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Richard Jones:

- penodi'r Cynghorydd Carol Ellis yn Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd;
- penodi'r Cynghorydd Mike Peers yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio;
- penodi'r Cynghorydd Rosetta Dolphin yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu; a

- phenodi’r Cynghorydd Rob Davies yn Gadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts ddiwygiad i’r uchod, gan gyflwyno’r enwebiadau canlynol, ac fe’u heiliwyd gan y Cynghorydd Billy Mullin:

- penodi’r Cynghorydd Ted Palmer yn Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd; a
- phenodi'r Cynghorydd Richard Lloyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Cafwyd pleidlais ar ba un a ddylid ethol y Cynghorydd Carol Ellis, fel y’i henwebwyd gan y Cynghorydd Bernie Attridge, neu’r Cynghorydd Ted Palmer, fel y’i henwebwyd gan y Cynghorydd Ian Roberts, i fod yn Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd. Wedi pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Ted Palmer yn Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd.

Cafwyd pleidlais ar ba un a ddylid ethol y Cynghorydd Mike Peers, fel y’i henwebwyd gan y Cynghorydd Bernie Attridge, neu’r Cynghorydd Richard Lloyd, fel y’i henwebwyd gan y Cynghorydd Ian Roberts, i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio. Wedi pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Richard Lloyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Wedi pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Rob Davies yn Gadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd.

Wedi pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Rosetta Dolphin yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu.

Dywedodd y Prif Swyddog y penodir Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd gan y Cyngor yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Sir ar 19 Gorffennaf 2022.

Eglurodd y Prif Swyddog fod Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cael eu dewis gan y grwpiau gwleidyddol yn seiliedig ar gryfder y gwahanol grwpiau a oedd â seddi ar y Cabinet. Yr oedd Cadeiryddion yn cael eu dyrannu i grwpiau a oedd â lle ar y Cabinet yn gyntaf, a byddai unrhyw hawl yn cael ei dalgrynnu i lawr i’r rhif cyfan agosaf. Byddai’r Cadeiryddion a oedd yn weddill wedyn yn cael eu dyrannu i grwpiau heb sedd ar y Cabinet (gan dalgrynnu i fyny i’r rhif cyfan agosaf).

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge yr enwebiadau canlynol ar gyfer y Grŵp Annibynnol, a chynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts yr enwebiadau canlynol ar gyfer y Grŵp Llafur.

| **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** | **Grŵp i Ddewis Cadeirydd** |
|---|---|
| Adnoddau Corfforaethol | Annibynnol (y Cynghorydd Richard Jones) |
| Y Gymuned, Tai ac Asedau | Annibynnol (y Cynghorydd Helen Brown) |
| Addysg, Ieuenctid a Diwylliant | Llafur (y Cynghorydd Teresa Carberry) |
| Yr Amgylchedd a’r Economi | Llafur (y Cynghorydd David Evans) |
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Democratiaid Rhyddfrydol |

Wedi pleidlais, cymeradwywyd yr enwebiadau uchod.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod Cadeiryddion y Pwyllgorau canlynol yn cael eu penodi (gan nodi unrhyw gyfyngiadau ar gymhwysedd):

- Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd – y Cynghorydd Ted Palmer
- Pwyllgor Cynllunio – y Cynghorydd Richard Lloyd
- Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd – y Cynghorydd Rob Davies
- Pwyllgor Trwyddedu – y Cynghorydd Rosetta Dolphin

(b) Bod y Pwyllgor Cwynion, Pwyllgor Apeliadau Cwynion a’r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn penodi eu Cadeiryddion eu hunain o blith eu haelodau; a

(c) Bod y grwpiau canlynol yn cadeirio'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel yr amlinellwyd:

| **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** | **Grŵp i Ddewis Cadeirydd** |
|---|---|
| Adnoddau Corfforaethol | Annibynnol (y Cynghorydd Richard Jones) |
| Y Gymuned, Tai ac Asedau | Annibynnol (y Cynghorydd Helen Brown) |
| Addysg, Ieuenctid a Diwylliant | Llafur (y Cynghorydd Teresa Carberry) |
| Yr Amgylchedd a’r Economi | Llafur (y Cynghorydd David Evans) |
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Democratiaid Rhyddfrydol |

**(vi) <u>Cymeradwyo’r Cyfansoddiad</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog fod y Cyfansoddiad yn nodi sut mae’r Cyngor yn gweithredu, ac mae’n cynnwys:

- rheolau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli cyfarfodydd a busnes y Cyngor;
- dirprwyaethau i’r Cabinet (yn cynnwys dewis yr hyn sy’n mynd i fod yn swyddogaeth weithrediaeth a’r hyn nad yw’n mynd i fod yn swyddogaeth weithrediaeth);
- dirprwyaethau i bwyllgorau a grwpiau cynghori yn unol â’u cylch gorchwyl;
- dirprwyaethau i swyddogion; a
- chodau a phrotocolau i gynnal safonau uchel o lywodraethu ac ymddygiad moesegol.

Dywedodd y Prif Swyddog yr adolygir y codau a’r protocolau yn y Cyfansoddiad yn barhaus i sicrhau eu bod yn aros yn gyfredol a pherthnasol. Adolygid pob cod / protocol o leiaf unwaith yn ystod tymor y Cyngor hwn fel rhan o’r adolygiad hwnnw. Gwneid newidiadau hefyd fel bo’r angen os oedd adolygiad wedi ei drefnu eisoes wedi digwydd, neu os nad oedd disgwyl i adolygiad fod am gryn amser. Bydd y Pwyllgor Safonau’n cytuno ar y rhaglen ar gyfer adolygu’r Cyfansoddiad yn ei gyfarfod nesaf.

Y mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi interim yn ymwneud â sut i gymryd rhan mewn cyfarfodydd; er enghraifft, ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu o bell. Gan fod y Cyngor newydd bellach wedi ei sefydlu, bydd yn bosibl adolygu'r protocol hwnnw sy'n nodi bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dweud bod rhaid i Aelodau ac eraill gael yr hawl o fod yn bresennol o bell, os ydynt yn dymuno. Nid oes cyfarpar technolegol i alluogi hyn ddigwydd yn y rhan fwyaf o ystafelloedd cyfarfod y Cyngor ar hyn o bryd.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Paul Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r rheolau, gweithdrefnau, dirprwyaethau a'r codau / protocolau sydd yn y Cyfansoddiad.

**(vii) Enwebu i Gyrff Mewnol**

Eglurodd y Prif Swyddog fod y Cynllun Dirprwyo presennol yn darparu ar gyfer Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swyddogion haen gyntaf ac ail haen, yn cynnwys saith Aelod. Nid oedd hwn yn Bwyllgor sefydlog a byddai'n cael ei gynnull pan fo angen drwy geisio enwebiadau gan Arweinwyr Grwpiau. Yn y gorffennol yr oedd yn arferol i Aelodau'r Pwyllgor ddod o'r holl grwpiau, gan gynnwys yr Aelod Cabinet perthnasol. Ni fyddai cydbwysedd gwleidyddol, yn ffurfiol, er hynny.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Ian Roberts yr argymhellion yn yr adroddiad, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sean Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cyfansoddiad y Pwyllgor Penodiadau.

**(viii) Pwyllgor Safonau**

Eglurodd y Prif Swyddog fod y Pwyllgor Safonau'n cynnwys pum Aelod annibynnol, cynrychiolydd o Gyngor Tref a Chymuned, a thri Chynghorydd (ac eithrio'r Arweinydd ac Aelodau Cabinet). Y mae'n rhaid penodi'r tri Chynghorydd Sir am oes y Cyngor (5 mlynedd), a gallant wasanaethu am ddau dymor ar y mwyaf. Gofynnodd y Prif Swyddog am enwebiadau ar gyfer penodi tri Chynghorydd i'r Pwyllgor.

Cynigiwyd y Cynghorwyr Bill Crease ac Antony Wren gan y Cynghorydd Bernie Attridge.

Cynigiwyd y Cynghorydd Teresa Carberry gan y Cynghorydd Ted Palmer.

Cynigiwyd y Cynghorydd Andrew Parkhurst gan y Cynghorydd Hilary McGuill.

Ni chafwyd enwebiadau eraill.

Gan fod pedwar enwebiad wedi ei gyflwyno, tynnodd y Cynghorydd Bernie Attridge ei enwebiad ar gyfer y Cynghorydd Bill Crease yn ôl.

Wedi pleidlais, etholwyd y Cynghorwyr Teresa Carberry, Andrew Parkhurst ac Antony Wren yn briodol i'r Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi cyfansoddiad ac aelodau'r Pwyllgor Safonau, yn cynnwys penodi'r Cynghorwyr Teresa Carberry, Andrew Parkhurst ac Anthony Wren i ddisodli'r Cynghorwyr Gladys Healey, Patrick Heesom ac Arnold Woolley.

**(ix) Penodiadau i Gyrff Allanol**

Dywedodd y Prif Swyddog y gallai'r Cyngor enwebu Cynghorwyr i wasanaethu ar wahanol gyrff megis yr Awdurdod Tân, Panel yr Heddlu a Throsedd, yn ogystal â sefydliadau elusennol lleol (a elwir gyda'i gilydd yn "gyrff allanol"). Yr oedd rhai cyrff allanol yn rhanbarthol, rhai'n berthnasol i'r sir gyfan, a rhai'n lleol yn unig. Gwnaed penodiadau ar gyfer holl dymor y Cyngor. Gan fod llenwi pob swydd wag yn gallu bod yn broses hir, rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr enwebu fel bo'r angen, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grwpiau.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge yr argymhellion, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Richard Jones.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grwpiau, i wneud penodiadau i gyrff allanol ar gyfer tymor y Cyngor hwn. Yn cynnwys awdurdod i newid unrhyw benodiad (mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grwpiau) yn ystod tymor y Cyngor fel bo'r angen.

*Ar y cam hwn yn y cyfarfod, cafwyd egwyl fer cyn ystyried eitemau busnes cyffredin.*

**NEWID YN NHREFN Y RHAGLEN**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r eitem yn ymwneud â Threfniadau Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu Cymreig (awdurdodau lleol) yn cael ei thrafod yn gynt.

## 8. TREFNIADAU CYDWEITHIO CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU A MAETHU (AWDURDODAU LLEOL)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) adroddiad i geisio cytundeb i arwyddo'r Cytundeb Cydbwyllgor ar gyfer y Cydbwyllgor arfaethedig. Darparodd wybodaeth gefndir a chyd-destun, a dweud bod y Cytundeb yn egluro rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cynnal a chyflawni swyddogaethau cenedlaethol a oedd yn cynorthwyo a galluogi'r awdurdod lleol i

gyflawni cyfrifoldebau mabwysiadu a maethu. Atodwyd copi o'r Cytundeb Cydbwyllgor i'r adroddiad.

Wrth ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Richard Jones, cytunodd y Prif Swyddog fod gofalwyr sy'n berthnasau yn rhan annatod o wasanaethau maethu'r Cyngor, a'u bod yn cael eu cefnogi'n llawn fel aelodau o'r teulu.

Wrth gynnig yr argymhellion yn yr adroddiad, diolchodd y Cynghorydd Bernie Attridge i Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog a'i dîm am eu gwaith a'u hymroddiad i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu a maethu. Eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Christine Jones.

Talodd Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Ian Roberts a'r Cynghorydd Paul Cunningham deyrnged i wasanaeth mabwysiadu a maethu'r Cyngor a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r trefniadau llywodraethu newydd a sefydlwyd drwy'r Cytundeb Cydbwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru; a

(b) Bod adroddiad blynyddol am y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a darpariaeth gwasanaethau rhanbarthol a lleol, yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, fel rhan o oruchwyliaeth llywodraeth leol.

## 9. ETHOLIADAU CYNGOR SIR Y FFLINT DYDD IAU 5 MAI 2022

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad am ganlyniadau etholiadau'r Cyngor Sir yn 2022. Cadarnhaodd yr adroddiad fod yr etholiadau lleol wedi eu cynnal yn unol â chyfraith etholiadau, canllawiau, arferion cyffredin a'r safonau perfformiad sydd wedi eu gosod ar gyfer Swyddogion Canlyniadau. Nododd yr adroddiad gyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor ar gyfer y tymor newydd.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod proses yr etholiadau lleol wedi bod o safon uchel a bod uniondeb wedi ei gynnal. Mynegodd ei werthfawrogiad o ymroddiad a phroffesiynoldeb timau Etholiadau a Rheoli'r Cyfrif, a chydweithrediad pawb a fu'n rhan o'r broses etholiadol, gan gynnwys llawer o sefydliadau lleol a ddarparodd eu heiddo i fod yn orsafoedd pleidleisio, a Choleg Cambria am ddarparu lle ar gyfer Canolfan Gyfrif. Diolchodd y Prif Weithredwr hefyd am gydweithrediad yr ymgeiswyr, asiantwyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr am ddilyn y cyngor ac arweiniad a roddwyd drwy gydol y cyfnod cyn yr etholiad.

Hysbysodd y Prif Weithredwr ei fod, ar y cyd â'r Tîm Etholiadau, wedi gwerthuso perfformiad a dysg o'r etholiadau er mwyn eu rhannu â'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ei adroddiad gwerthuso cenedlaethol, ac ar gyfer cynllunio etholiadau yn y dyfodol. Tynnodd sylw ar y defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfnod yr etholiad, a, chan gyfeirio at ganllawiau cyfredol y

Comisiwn Etholiadol ynglŷn â'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, dywedodd y byddai'r angen am fwy o eglurhad yn cael ei godi mewn adborth ffurfiol i'r Comisiwn.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Sir y Fflint yn parhau i fod yn uchel ei pharch am y dull o reoli etholiadau, yr arferion a'r ddarpariaeth. Dywedodd fod y nifer a bleidleisiodd yn yr etholiad wedi bod ychydig yn is yn 2022 (36%) nag yn 2017 (38.73%), a thynnodd sylw at ganlyniadau'r etholiad fel y'u nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Diolchodd y Cynghorydd Ian Roberts i'r Tîm Etholiadau, Timau Rheoli'r Cyfrif, a phawb a fu'n rhan o broses yr etholiadau. Dywedodd fod yr etholiadau a'r cyfrif wedi eu trefnu a'u cynnal yn dda. Talodd y Cynghorydd Roberts deyrnged yn arbennig i'r Swyddog Canlyniadau am ei berfformiad canmoladwy drwy gydol yr etholiadau, a'i gyngor ac arweiniad wrth ymateb i'r holl faterion a godwyd. Wrth ddod i gasgliad, diolchodd y Cynghorydd Roberts hefyd i'r holl ymgeiswyr a oedd wedi cyflwyno'u henwau ar gyfer yr etholiadau lleol.

Cytunodd y Cynghorydd Bernie Attridge gyda sylwadau'r Cynghorydd Roberts, a diolchodd i'r Swyddog Canlyniadau, y Dirprwy Swyddog Canlyniadau, a phawb a fu'n rhan o broses yr etholiadau am eu heffeithlonrwydd a'u proffesiynoldeb.

Diolchodd y Cynghorwyr Chris Bithell, Marion Bateman, Bill Crease, Gladys Healey, Dennis Hutchinson, Hilary McGuill, Richard Jones a Billy Mullin i Swyddogion a staff am eu gwaith, eu hymroddiad, ac am reolaeth a chanlyniad llwyddiannus i'r etholiadau.

Tynnodd y Cynghorydd Richard Jones sylw at yr angen i gydnabod y gwasanaeth a roddwyd gan gyn-Gynghorwyr na fyddai'n dychwelyd ar gyfer tymor arall yn eu swydd gyda'r Cyngor Sir. Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y cyflwynid bathodyn i Gynghorwyr pan fônt yn ymddeol, a chynhelid digwyddiad dinesig yn ddiweddarach yn y flwyddyn a fyddai'n cynnwys Cynghorwyr nad oedd yn dychwelyd, er mwyn cydnabod eu hamser mewn gwasanaeth cyhoeddus.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge yr argymhellion, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Helen Brown.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 10. AMSERLEN O GYFARFODYDD 2022/23

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2022/23 yn dilyn ymgynghoriad. Dyluniwyd yr Amserlen Gyfarfodydd bob blwyddyn yn seiliedig ar gylchoedd cyfarfod rheolaidd, diwrnodau cyfarfod rheolaidd pan fo'n bosibl, a chydag ymgysylltu helaeth er mwyn sicrhau nad oedd ymrwymiadau adrodd a / neu gyfarfodydd yn gwrthdaro.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge yr argymhellion, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd David Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r amserlen ddrafft o gyfarfodydd ar gyfer 2022/23, fel y'i hatodwyd i'r adroddiad.

## 11. PENODI AELODAU LLEYG I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynglŷn â phenodi lleygwr ychwanegol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Darparodd wybodaeth gefndir a dywedodd yr amlinellir yr angen i benodi lleygwr yn yr adroddiad. Atodwyd portread o'r ymgeisydd i'r adroddiad er gwybodaeth.

Siaradodd y Cynghorydd Bernie Attridge o blaid yr enwebiad a chynigiodd yr argymhelliad, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Billy Mullin.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi Brian Harvey i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio tan 31 Rhagfyr 2027

## 12. DEISEBAU

Dim.

## 13. DEISEBAU SYDD WEDI DOD I LAW'R CYNGOR

Cyflwynodd y Prif Swyddog adroddiad i hysbysu'r Cyngor am ganlyniadau deisebau a oedd wedi eu cyflwyno dros y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd fod un ddeiseb wedi ei chyflwyno yn y Cyngor yn ystod 2020/21, ar 25 Mai 2021, a nodwyd yn yr adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge yr argymhellion, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Richard Jones.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 14. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dim.

## 15. CWESTIYNAU

Dim.

## 16. RHYBUDD O GYNNIG

Dim

## 17. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Yr oedd un aelod o'r wasg a dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 am a daeth i ben am 3.50 pm.)

..................................................

**Cadeirydd**